
Asesu Cystadleuaeth BBC Scotland

Ymgynghoriad ynghylch penderfyniad dros dro Ofcom

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Ebrill 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 18 Mai 2018

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae Ofcom yn dymuno gweld cynulleidfaoedd yr Alban yn cael gwasanaeth da gan y BBC a'r sector darlledu drwyddo draw. Er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, mae'n rhaid i Ofcom bwysu a mesur newidiadau mawr mae'r BBC yn dymuno eu gwneud i'w wasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus cyn gall y fath newidiadau mynd yn eu blaen.
- 1.2 Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y BBC brawf budd cyhoeddus yn cynnig lansio sianel newydd gan y BBC ar gyfer yr Alban. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn egluro ein penderfyniad dros dro y caiff y BBC gyflawni'r cynnig hwnnw. Rydym yn crynhoi'r adolygiad rydym wedi'i gynnal o brawf budd cyhoeddus y BBC a'r gwaith dadansoddi rydym wedi'i wneud cyn dod i'r casgliad y byddai'r gwerth cyhoeddus y cais yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol y gallai eu cael. Yn y ddogfen hon, rydym yn hefyd yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid

Ein canfyddiadau dros dro

Bydd y gwasanaeth newydd sy'n cael ei gynnig gan y BBC yn arwain at werth cyhoeddus i gynulleidfaoedd: Rydym yn credu bod modd i sianel newydd ar gyfer yr Alban wneud cyfraniad gwerthfawr i ddibenion cyhoeddus y BBC. Bydd cynnig y BBC yn ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i wylwyr yn yr Alban; bydd y rhaglenni newyddion yn canolbwyntio mwy ar yr Alban a bydd yn cyflwyno rhagor o gynnwys sydd wedi'i ddylunio i adlewyrchu bywydau pobl yn yr Alban. Dylai hefyd gryfhau prosesau cynhyrchu yn y wlad. Fodd bynnag, bydd y gwerth personol a gaiff cynulleidfaoedd o'r sianel yn dibynnu ar allu'r BBC i gyflwyno cymysgedd o gynnwys o safon uchel.

Nid ydym yn credu bod cynnig y BBC yn debygol o gael effaith sylweddol o ran atal cystadleuaeth: Rydym yn rhagweld y gallai'r sianel newydd ddenu cyfran fwy o wylwyr yn yr Alban na'r hyn y mae'r BBC yn ei ragweld, oddeutu dwbl cynulleidfa bresennol BBC Four yn yr Alban. Er y gallai hyn gael rhywfaint o effaith ar benderfyniadau busnes cystadleuwyr sy'n colli gwylwyr i'r gwasanaeth newydd, mae ein dadansoddiad ni'n awgrymu ei bod yn annhebygol y bydd newid sylweddol o ran cymhellion darlledwyr i arloesi neu fuddsoddi mewn cynnwys newydd ar gyfer yr Alban.

Fel y mae ar hyn o bryd, nid yw'n debygol y bydd effeithiau cynnig y BBC ar y farchnad ehangach yn sylweddol: Mae'r BBC yn bwriadu cynyddu ei gapasiti newyddion yn yr Alban er mwyn cefnogi'r broses o lansio'r sianel. Gallai darpariaeth ar-lein sy'n cael ei ehangu'n sylweddol gael effaith niweidiol bosibl ar ddarparwyr newyddion masnachol. Fodd bynnag, mae cwmpas cyfyngedig cynlluniau ar-lein y BBC yn ei gynigion a'r gronfa dalent weddol hyblyg y bydd yn ei defnyddio ar gyfer recriwtio yn golygu nad yw'n debygol y bydd effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth.

Ein penderfyniad dros dro yw y dylid caniatáu i'r BBC lansio ei wasanaeth fel yr hysbysir: Ar ôl ystyried pob ffactor, rydym yn credu y byddai'r gwerth cyhoeddus a fyddai'n cael ei gynnig gan y sianel, fel sy'n cael ei gynnig gan y BBC, yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol y gallai eu hachosi.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i brosesau'r BBC ddatblygu a dod yn fwy tryloyw: Rydym yn fodlon bod y BBC wedi dilyn y prosesau priodol yn ystod ei brawf budd cyhoeddus. Fodd bynnag, yn y dyfodol, byddwn yn disgwyl i'r BBC archwilio'r effeithiau negyddol posibl ar werth cyhoeddus, fel ei benderfyniad i ddirwyn rhaglennu ar gyfer yr Alban yn unig i ben ar BBC Two, yn fwy clir o lawer. I sicrhau bod trydydd partion yn cadw hyder yn y strwythurau rheoleiddio, byddwn yn disgwyl i'r BBC i gyhoeddi ei asesiadau effaith ar y farchnad ac i ymgysylltu mewn ffordd sy'n fwy agored.

rydym wedi'u derbyn mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Gyflwyno Sylwadau a gyflwynwyd gennym yn hwyr y llynedd.

- 1.3 Rydym nawr yn croesawu sylwadau ynghylch ein penderfyniad dros dro. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar **18 Mai 2018** ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniad terfynol yn ddiweddarach yr haf hwn.